

Natur ar Stepen eich Drws

Ar adeg ysgrifennu, mae'r wlad wedi cloi i lawr oherwydd argyfwng Covid 19 ac mae mesurau ymbellhau cymdeithasol llym yn eu lle er mwyn atal lledaeniad y clefyd. Mae hyn yn cau allan lawer o'r gwaith arferol y byddai nifer fawr ohonoch yn ei wneud fel arfer wrth i'r Gwanwyn ddechrau. Gyda llawer ohonom wedi'n hynysu yn ein cartrefi ein hunain ac yn teimlo pryder ynghylch y datblygiadau diweddar, mae cymryd ennyd i ailgysylltu â'r natur y gellwch ei gweld a'i chlywed o'ch cartref eich hun yn medru bod yn donig gwerthfawr. Yn y rhifyn hwn, fe welwch adroddiadau am brosiectau a gwblhawyd cyn i'r cyfyngiadau ddod i rym. Yn lle'r rhestr arferol o ddigwyddiadau, byddwch yn dod o hyd i ddolenni cyswllt i weithgareddau ac arolygon y gellwch eu cynnal o'ch cartref. Gobeithio y byddwch yn eu cael yn ysgogol, neu'n gysurlon, neu'r ddau.

Mae Partneriaeth Natur Sir Benfro yn parhau i weithredu ac rydym yn croesawu eich syniadau ynghylch camau ymarferol y gellir eu cymryd yn awr (gyda chyfyngiadau yn eu lle ar symud) ac yn y dyfodol.

Dymuniadau gorau i bawb.

Ant Rogers

Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth



Llun: Trevor Theobald

PEMBROKESHIRE NATURE PARTNERSHIP



PARTNERIAETH NATUR SIR BENFRO

Cyrol 17 Rhifyn 1
Gwanwyn 2020

Yn y rhifyn hwn



Natur ar Stepen eich Drws
Tudalen 1

Prosiect Morwellt Dale Wedi Cychwyn
Tudalen 2



CLA Cymru yn Ymuno â'r Bartneriaeth
Tudalennau 2—3

Hyfforddiant Capiâu Cwyr gyda Plantlife
Tudalennau 3—4



EcoDewi: yn Anelu at Wneud Penrhyn
Tyddewi yn fwy Gwyrdd Fyth!
Tudalennau 4—5



Diweddariad SWEPT
Tudalennau 5—6



Y Gaeaf yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth
Bywyd Gwylt yn Sir Benfro
Tudalennau 6—7



Cartref Newydd i'r Hwyaden Fraith
Tudalennau 7—8

Creu Cynefin yn y Pwll Slaes
Tudalennau 8—9



Digwyddiadau
Tudalennau 10—11

Manylion Cysylltu
Tudalen 12

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437776146

Tudalen 1



Prosiect Morwellt Dale Wedi Cychwyn

Yn ddiweddar ymgwymerodd Achub Morwellt y Cefnfor (*Seagrass Ocean Rescue*) â'r prosiect mawr cyntaf i adfer morwellt yn y DU oddi ar Dale, drwy blannu tua 1.5 hectar o forwellt rhwng y 25^{ain} o Chwefror a'r 3^{ydd} o Fawrth. Bydd y prosiect gan Brifysgol Abertawe, sy'n cael ei ariannu gan WWF a Sky Ocean Rescue, yn monitro twf yr hadau ac yn mewnlenni â hadau pellach fel y bydd angen eleni i gynhyrchu gweirglodd 2 hectar, gobeithio.



Gwirfoddolwyr yn llenwi bagiau hesian bach â thywod a hadau yn barod i'w defnyddio
Llun: Sam Rees

Mae'r morwellt islanwol, *Zostera Marina*, yn digwydd yn naturiol yn Nyfrffordd Aberdaugleddau mewn mannau cysgodol o wely môr addas, gan gynnwys darn bach presennol ym Mae Dale, ond mae'n rhywogaeth sydd wedi dioddef dirywiad enfawr yn y DU. Gobaith y prosiect arddangos yw dangos ei bod yn bosibl adfer morwellt brodorol.

Mae cynefin morwellt o fudd i fywyd gwyllt y môr, yn enwedig pysgod ifanc, yn dda i ansawdd dŵr, ac ar raddfa fyd-eang mae'n ardderchog i ddal carbon (gwell na fforestydd glaw). Mae Achub Morwellt y Cefnfor wedi gweithio drwy Fforwm Arfordir Sir Benfro a Swyddog ACA Forol Sir Benfro i gydweithio'n agos â'r gymuned leol a defnyddwyr dŵr i nodi ardal gytunedig ar gyfer plannu.

Sue Burton

Swyddog ACA Forol Sir Benfro

sue@pembrokeshiremarinesac.org.uk



CLA Cymru yn Ymuno â'r Bartneriaeth

Yn ddiweddar, ailymrwymodd Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru (CLA Cymru) i gydweithio er mwyn helpu i adfer natur. Mae CLA Cymru yn cynrychioli nid yn unig fuddiannau ffermio ond hefyd fusnesau fferm, sydd wedi arallgyfeirio a datblygu gweithgareddau busnes ychwanegol. Mae hyn yn golygu ein bod yn cynrychioli'r ystod ehangaf bosibl o chwaraewyr economaidd yn yr economi wledig.

Mae'r aelod hwn wedi creu'r ganolfan gyntaf i adfer y barcud coch – ac mae'r busnes bellach yn atyniad mawr sydd wedi gwneud cyfraniad enfawr at adfer y rhywogaeth hon o adar ysglyfaethus.



Llun: CLA Cymru

Er mai fel arbenigwyr mewn materion amaethyddol y cawn ein gweld ac mai felly rydym yn cymryd rhan, mae gennym hefyd wybodaeth a phrofiad yn ymwneud â'r amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar fusnesau gwledig, gan gynnwys pryderon ynghylch cynllunio, buddsoddi a datblygu economaidd, darparu sgiliau, cysylltedd, a seilwaith ffisegol a thai.

Yng Nghymru, mae aelodaeth CLA Cymru yn cyrraedd bron i 3,000 o fusnesau gwledig. Yma, rydym yn chwarae rhan lawn a deinamig mewn ymgysylltu â'r Llywodraeth a rhanddeiliaid. Mae'r CLA, fel rhan o sefydliad sydd wedi'i hen sefydlu ledled y DU, yn cynnwys tua 30,000 o aelodau.





Llun: CLA Cymru

Cynhaliodd aelod o'r CLA lansiad ymgynghoriad cychwynnol Llywodraeth Cymru: Brexit a'n Tir, a fu'n fodd i gychwyn a ffurfioli'r drafodaeth ynglŷn â ffermwyr a thirfeddianwyr yn derbyn cymorth i ddarparu pethau er lles y cyhoedd. Yn y llun, mae Rebecca Williams, cyn-Gyfarwyddwr y CLA, gyda Lesley Griffiths, y Gweinidog, a Hannah Blythyn, ei Dirprwy ar y pryd.

Mae CLA Cymru yn ymfalchïo mewn hyrwyddo dulliau ffermio cynaliadwy a chyfrifol, gan ystyried gofynion y boblogaeth wledig o ran incwm, y cyfrifoldeb i reoli adnoddau'n ofalus tra'n parhau i gynhyrchu'r cynhyrchion y mae defnyddwyr modern yn galw amdanynt, a'r angen i ddiogelu ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn rhoi cyngor i'n haelodau ar sut i sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng cyflawni'r amcanion hyn a chyrraedd eu nodau personol hwy eu hunain. Er enghraifft, yn y llun isod nid yw'r ffermwr, o fewn Parc Cenedlaethol a pharth NVZ, yn aredig ond mae'n drilio ei gnydau â'r yn uniongyrchol. Roedd y ffaith na wnaeth ei dir orlifo'n ddiweddar yn cyfiawnhau ei bolisi i beidio ag aflonyddu ar y pridd rhag ei wneud yn agored i gael ei dorri i lawr a llifo i ffwrdd.



Llun: CLA Cymru

Nid yw rheoli tir a gwella natur yn ddau beth croes i'w gilydd. Efallai mai pobl fusnes yw ein haelodau, ond yr un peth sydd ganddynt yn gyffredin yw perthynas agos â byd natur. Maent yn tueddu i ganolbwyntio ar genedlaethau, sef gobeithio trosglwyddo'r tir mewn cyflwr gwell i'w meibion a'u merched na'r cyflwr y cawsant ef ynddo, tra'n ystyried hefyd eu gofynion presennol hwy eu hunain o ran incwm a'r ddyletswydd i gynhyrchu bwyd.

Elliott Rillie

CLA Cymru

elliott.rillie@cla.org.uk



Hyfforddiant Capiâu Cwyr gyda Plantlife

Mynychodd pump o bobl frwd dros ffwng gwrs hyfforddi yn Sir Benfro yn yr Hydref dan arweiniad a hyfforddiant yr arbenigwr lleol, David Harries. Cafodd y cwrs ei daenu dros 3 diwrnod, gan roi cyfle i'r cyfranogwyr ymweld â nifer o safleoedd ar draws y Sir a chael profiad o adnabod y rhywogaethau diddorol hyn yn y maes.



Cap Cwyr Parhaus
Hygrocybe acutoconica
Llun: Clare Flynn



Cynhaliwyd diwrnod 1 yn Ystangbwl, lle rhoddodd David gyflwyniad ardderchog i ffyngau glaswelltir a'u cynefinoedd. Mynychodd staff o Ganolfan Gwybodaeth Fiolegol Gorllewin Cymru (CGFGC) hefyd a rhoi cyflwyniad ar gofnodi biolegol a chyflwyniad i ap recordio LERC (Canolfannau Recordio Amgylcheddol Lleol) Cymru. Yn y prynhawn, arweiniodd Paul Culyer o Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gyrch ar ystâd Ystangbwl lle y cofnodwyd nifer o rywogaethau gan gynnwys Hygrocybe Insipida (Cap Cwyr Serennog) a Thagell Binc Las Fawr.

Roedd diwrnod 2 yn ddydd Calan Gaeaf ac aethom ar daith wyntog, laith, ar hyd y ffordd i Bwynt Lydstep a mynwentydd Sir Benfro, diwrnod ardderchog wedi'i drefnu'n wych gan David er mwynhad mawr i bawb. Adnabuwyd amrywiaeth o rywogaethau yn y maes gan ddefnyddio allwedd Capiau Cwyr Mycolegol Prydain, yn cynnwys Hygrocybe Aurantiosplendens, Cap Cwyr oren llachar, a ganfuwyd ar dir Capel Bethesda ger Dinbych-y-pysgod.



Edrych am Gapiau Cwyr mewn Mynwent
Llun: Clare Flynn

Cynhaliwyd ein diwrnod olaf gan David a'i wraig Holly ar Fferm hardd Somerton. Cyflwynwyd y cyfranogwyr i agweddau moleciwlaidd adnabod rhywogaethau gyda thaith o gwmpas Labordy DNA David a chyflwyniad i archwiliad microsgop o sbesimenau.

Caiff pob un o'r cyfranogwyr gymorth yn awr i ddal i gofnodi ffyngau a nodi safleoedd ffyngau glaswelltir newydd dros y blynyddoedd i ddod. Byddwn hefyd yn cynnal mwy o gyrsiau ledled

Cymru y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn hanfodol i'n dealltwriaeth o'r rhywogaethau hyn a'u gofynion o ran cynefinoedd ac, yn y pen draw, eu cadwraeth yng Nghymru.

Cafodd yr hyfforddiant hwn ei hwyluso gan Plantlife fel rhan o Dolydd Godidog Cymru, sef prosiect partneriaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Clare Flynn

Swyddog Allgymorth, Dolydd Godidog Cymru.



EcoDewi: yn Anelu at Wneud Penrhyn Tyddewi yn fwy Gwyrdd Fyth!

Mae grŵp cymunedol newydd wedi ymfurfio ar Benrhyn Tyddewi, sydd wedi ymrwymo i helpu cymunedau ac unigolion drwy gyfleoedd ynni cynaliadwy sy'n eiddo i'r ardal leol, yn ogystal â phrosiectau ecoleg a gwella'r amgylchedd. Mae'r grŵp, **EcoDewi**, yn dilyn ôl traed Grŵp Eco-ddinas Dewi Sant, sydd wedi cael llwyddiant mawr gyda phrosiectau dros y blynyddoedd, ac mae rhai aelodau allweddol wedi ymuno â phwyllgor cynllunio EcoDewi.

Caiff EcoDewi ei gefnogi gan brosiect LEAF (Grym Gweithredu Ynni Lleol) yn Sir Benfro, prosiect peilot arloesol gan Ynni Cymunedol Sir Benfro i helpu cymunedau i gynhyrchu a rhannu ynni cynaliadwy.

Mae gwirfoddolwyr lleol wedi ymgymryd â rolau allweddol ac yn awr maen nhw'n chwilio am gefnogwyr cymunedol drwy'r penrhyn, sydd â diddordeb mewn cynhyrchu ynni lleol a phrosiectau ecoleg a chadwraeth ehangach, i gymryd rhan. Mae ganddynt eisoes fap o brosiectau posibl gan gynnwys prosiect trefniant solar bychan mewn partneriaeth â thirfeddiannwr lleol.





Llun: Jeremy Wadia

Cynhaliodd y grŵp eu noson 'Sgyrsiau a Rhwydweithio' gyntaf Ddydd Iau, y 5^{ed} o Fawrth am 7p.m. yng nghaffi'r Meadow, Tyddewi, gyda dau siaradwr gwadd a diweddariad ar obeithion EcoDewi. Siaradwyr y noson oedd Ant Rogers, Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth Partneriaeth Natur Sir Benfro, a Tom Latter, Trawsnewid Bro Gwaun, rhan o rwydwaith Trawsnewid y DU sydd wedi'i lleoli yn Abergwaun. Nod EcoDewi yw cynnal y digwyddiadau 'Sgyrsiau a Rhwydweithio' hyn bob chwarter, fel y gall pobl leol ac ymwelwyr ddysgu am agweddau gwahanol ar y gwaith amgylcheddol sy'n digwydd yn Sir Benfro a rhannu syniadau arloesol y gellid eu mabwysiadu ar draws y Penrhyn. Bwriedir cynnal digwyddiadau yn y dyfodol yn Solfach a Llanrhian hefyd, a gellir dod o hyd i fanylion am yr holl weithgareddau ar Facebook, Twitter ac Instagram, yn ogystal ag ar eu gwefan <http://ecodewi.org.uk>.

Jeremy Wadia

EcoDewi

jeremy@ecodewi.org.uk



Diweddariad SWEPT

Yr adeg hon y llynedd, roedd prosiect gwirfoddol 'Arolygu'r Ddyfrffordd am Fygythiadau Llygredd Amgylcheddol' (SWEPT) (2018-2019) newydd gwblhau ei waith maes. Bu'r prosiect yn recriwtio, trefnu a hyfforddi dinasyddion gwyddonol ar gyfer casglu data amgylcheddol o fewn Dyfrffordd Aberdaugleddau. Treuliodd tua 150 o wirfoddolwyr dros 1,700 awr yn mewnbynnu i'r prosiect a chofnodi llw o fewnbynnau dŵr croyw i'r ddyfrffordd (350 yn ystod y mis gwlypaf) a chynhaliwyd ychydig o dan 900 o brofion dŵr ar rai o'r rhain am lygredd nitradau a ffosffad. Pe baent wedi bod yn samplu'n ddiweddar, yn ystod y mis Chwefror gwlypaf a gofnodwyd erioed, mae'n bosibl y byddai'r gwirfoddolwyr wedi cofnodi mwy fyth hyd yn oed o fewnbynnau i'r ddyfrffordd!



Llun: Sue Burton

Mae gan ddŵr ffo oblygiadau ar gyfer ansawdd dŵr a bywyd gwyllt o fewn Dyfrffordd Aberdaugleddau.

Cafodd manylion am SWEPT eu cynnwys yng nghylchlythyr yr haf y llynedd. Yn fuan wedyn, enillodd y prosiect wobwr genedlaethol gan yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol. Roedd Sue Burton, cydlynnydd y prosiect, ac Anne Bunker a Simon Shorten o Cyfoeth Naturiol Cymru wrth eu bodd i dderbyn y wobwr mewn derbyniad seneddol ar y 10^{fed} o Orffennaf yn Nhŷ'r Cyffredin.



*Mae nitradau o'r dŵr ffo oddi ar y tir yn hybu tyfiant gormodedd o algâu sy'n arwain at fatiau o chwyn gwyrdd sy'n gallu mygu rhywogaethau'r morfa heli fel *Salicornia* (Chwyn Hallt neu Lyrlys).*



Tyfiant gormodedd o algâu ar Garron Pill.
Llun: Sue Burton

Mae canlyniadau'r arolwg yn cael eu defnyddio i ategu data monitro CNC ac i ddeall yn well effeithiau dŵr sy'n llifo oddi ar y tir ar yr amgylchedd morol, ac arwain at welliannau amgylcheddol. Roedd digwyddiad rhannu ar gyfer rheolwyr tir a'r diwydiant amaeth wedi'i drefnu ar gyfer y 25^{ain} o Fawrth ond fe'i gohiriwyd oherwydd cyfyngiadau Covid-19.

Mae SWEPT wedi bod yn brosiect partneriaeth yn cael ei ariannu drwy grant gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Sue Burton

Swyddog ACA Forol Sir
Benfro

sue@pembrokeshiremarinesac.org.uk


SWEPT

Y Gaeaf yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt yn Sir Benfro

Er gwaethaf y tywydd garw, gwelodd y Gaeaf lawer o weithgarwch ar nifer o warchodfeydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt yn y sir. Dyma'r adeg o'r flwyddyn, y tu allan i'r tymor bridio, pryd y gellir gwneud gwaith gyda'r effaith leiaf yn gyffredinol ar fywyd gwylt.

Bu'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt yn ffodus i dderbyn cyllid drwy Bartneriaeth Natur Sir Benfro i wneud gwaith yng Nghorstir Llangloffan ac yng ngwarchodfeydd natur Corsydd Teifi.

Mae llecyn o ddŵr agored yng Nghorstir Llangloffan wedi cael ei lanhau ac mae'r marchrawn ymledol wedi'i glirio mewn mannau. Mae hyn wedi gwella'r cynefin dyfrol ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau gan gynnwys anifeiliaid di-asgwrn-cefn megis gweision y neidr a mursennod, amffibiaid, adar tir gwlyb fel Glas y Dorlan a phlanhigion dyfrol prin fel pelenllys. Oherwydd glaw trwm a lefelau dŵr uchel ar y warchodfa, ni chymerodd lawer o amser i'r pwll lenwi ac yn fuan gwelwyd rhywogaethau o adar fel yr iâr ddŵr, iâr y gors ac iâr fach yr hesg yn defnyddio'r dŵr. Mae dyfrgwn hefyd wedi cael eu cofnodi yn y pwll.



Gwaith dŵr agored yng Nghorstir
Llangloffan
Llun: Nathan Walton

Mae prosiectau ffensio wedi ei gwneud yn bosibl rheoli'r cynefin corstir yn well ar gyfer ei warchod yng Nghorsydd Teifi, ac mae byfflo dŵr bellach yn medru pori rhannau o'r warchodfa oedd gynt wedi eu gadael i rywogaethau o brysgwydd. Does dim yn well gan fyfflo dŵr nag ymdreiglo, ac felly greu pantiau a phyllau sy'n gynefin perffaith i anifeiliaid di-asgwrn-cefn fel mursennod a gweision y neidr, i amffibiaid fel llyffantod a madfallod a hefyd i fywyd adar. Mae'r rhywogaethau hyn yn eu tro yn helpu i fwydo poblogaeth y warchodfa o ddyfrgwn, yn ogystal â'r Crëyr a'r Crëyr bach. Mae defnyddio byfflo dŵr i bori yn gallu cynnal adeiledd llystyfiant amrywiol ac isel dolydd gwlyb. Mewn mannau corslyd, mae sathru ar llystyfiant hefyd yn creu sianeli y gellir eu defnyddio gan bysgod i wasgaru i mewn

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437776146

Tudalen 6



i welyau cyrs. Ar y gwelyau cyrs, maent yn gymorth i sicrhau amrywiaeth o gynefinoedd, o frwyn cyffredin trwchus (*Phragmites australis*) i sianeli agored. Gallai'r sianeli agored hyn hefyd ddarparu cynefin fforio addas ar gyfer aderyn y bwn (*botaurus stellaris*). Mae'r byfflo'n defnyddio eu cynn hir ysgubol yn fedrus i rwygo mieri allan er mwyn cyrraedd mannau lle na fyddai ceffylau nac anifeiliaid eraill yn mentro.

Ffensio yng Nghorsydd Teifi
Llun: Nathan Walton



Mae prosiectau eraill y gaeaf wedi cynnwys torri atalfeydd tân blynyddol a phrysgwydd ar Gomin Dowrog (a ariennir yn rhannol gan Grŵp Tân Gwylt Sir Benfro); gwaith teneuo coetiroedd yng Nghoedwig Pengelli; gwaith torri coed ynn gwywedig yng Ngorllewin Williamston, Westfield Pill, Corsydd Teifi a Choedwig Pengelli; ac adnewyddu pwll mawr sy'n gollwng yng Nghorsydd Teifi. Mae'r pwll hwn, sydd wedi'i ailwampio, wedi ei leoli o flaen Canolfan Bywyd Gwylt Cymru a chaiff ei ddefnyddio i ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ddigwyddiadau trochi mewn pyllau dŵr.

Nathan Walton

Swyddog Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt, Sir Benfro



Cartref Newydd i'r Hwyaidd Fraith

Cwblhawyd gwaith yn ddiweddar ym mhurfa Valero i ddarparu cyfleoedd nythu i hwyaidd brith. Mae hwyaidd brith i'w gweld ar Fae Angl ac maen nhw wedi nythu yn y gorffennol mewn tyllau cwningod yn y tir fferm cyfagos. Dangosodd gwaith monitro blynyddol, a gynhaliwyd allan o gychod gan Grŵp Gwyltadwriaeth Amgylcheddol Dyfrffordd Aberdaugleddau (MHWESG), ostyngiad cyson yn y niferoedd sydd wedi bridio dros y blynyddoedd.


Drwy weithio gydag Datrysiadau Bioamrywiaeth a Grŵp Modrwyio Adar Sir Benfro, defnyddiodd contractwyr arian gan Bartneriaeth Natur Sir Benfro i brynu deunyddiau i adeiladu 10 twnnel nythu a'u gosod yng ngloddiau'r hen fyndiau yn Kilpaison mewn ymgais i annog yr hwyaidd brith i fridio mewn rhan sy'n rhydd o aflonyddwch cyhoeddus ac amaethyddiaeth drom. Mae'r ardal gerllaw Aber Bae Angl (sydd wedi'i ddynodi'n SODDGA) ac ACA Forol Sir Benfro. Adeiladwyd chwe nyth cyn i gyfyngiadau Covid-19 ddod i rym.

Twll yn cael ei adeiladu
Llun: John Hayes



Yn ogystal, gosodwyd netin moch yn lle ffensys cyswllt cadwyn mewn rhannau i ganiatáu i hwyaidd brith a'u cywion symud yn rhwydd o'r nythod i'r aber (100-200 metr i ffwrdd).





Y twll wedi ei orffen gydag abwyd
Llun: John Hayes

Caiff y safle ei chynnal a'i chadw gan Valero a'i fonitro gan y Grŵp Modrwy Adar.

Ant Rogers

Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth

Creu Cynefin yn y Pwll Slaes

Datblygwyd y prosiect hwn mewn cydweithrediad â grŵp cymunedol lleol (Gang Cefnogi'r Llwybr Estyllod) gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro i gynyddu amrywiaeth y cynefinoedd mewn rhan o wely cyrs a elwir y Pyllau Slaes, yn Aberllydan. Cyflawnwyd y prosiect gan Chris Taylor (Ceidwad Ardal y De) gan ddefnyddio arian gan Bartneriaeth Natur Sir Benfro.

Y nod oedd clirio llecyn o frwyn oedd yn dioddef o ledaeniad llystyfiant o brysgwydd (mieri, danadl poethion), ac wedyn agor man crafu adar hirgoes 1x10 m² (pwll bas dim mwy na 12 centimetr o ddyfnder) yn y rhan a gliriwyd. Prynwyd offer i hwyluso'r gwaith hwn ac ar gyfer y dasg barhaus i wirfoddolwyr reoli'r llystyfiant.



Gwirfoddolwyr cyn dechrau'r cloddio wrth y pwll slaes
Llun: Chris Taylor



Y pwll slaes ar ôl y cloddio
Llun: Chris Taylor

Bu'r gwaith yn digwydd ym mis Ionawr a Chwefror. Defnyddiwyd y deunydd a dynnwyd allan o'r man crafu i greu cloddiau, a ddylai ddarparu amrywiaeth o gynefinoedd ar gyfer ymlusgiaid ac amffibiaid.

Doedd dim o'r cynefinoedd newydd a grëwyd yn bod o gwbl cyn y gwaith hwn. Adeiladodd y prosiect gadernid ecosystem a chryfhau pob cynefin gydrannol drwy greu mosaig tir gwlyb (prysgwydd, gwely cyrs, glaswelltir gwlyb, cors, dŵr llonydd a dŵr rhedegog).

Ar ôl ei gwblhau, caiff cynllun rheoli ei lunio rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (PCNPA), Gang Cefnogi'r Llwybr

Estyllod a'r tiffeddiannwr preifat. Bydd y dewisiadau rheoli a awgrymir yn cynnwys monitro cyn ac ar ôl y tymor i asesu cyflymder aildyfu. Cesglir data ar y rhywogaethau sy'n bresennol, y mathau o gynefinoedd a maint cynefin i asesu'r cyflwr cyffredinol. Cynhelir Arolygon o Adar sy'n Bridio os yn bosibl rhwng mis Mai a mis Gorffennaf i chwilio am arwyddion o weithgarwch bridio, yn enwedig Telor y Gors.

Chris Taylor

Awdurdod Parc
Cenedlaethol Arfordir Sir
Benfro



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park



Man crafu newydd i adar hirgoes
Llun: Chris Taylor



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Gwanwyn 2020



Teitl	Manylion	Cyswllt
Y wa chofnodi anifeiliaid a phlanhigion yn eich gardd neethred bwysicaf y gallwn ni i gyd ei chyflawni, wrth ymladd Coronafeirws, yw aros gartref. Glynwch at y neges oddi wrth y Llywodraeth, ac felly dim ond gwyllo u rai y gellwch eu gweld drwy eich ffenestr.		
Arolwg Cyffredin neu Erddi	Prosiect i gofnodi chwe rhywogaeth gyffredin y gellwch eu gweld yn eich gerddi ac o gwmpas Gorllewin Cymru. Ein rhywogaethau cyffredin, yn aml, yw'r rhywogaethau sy'n cael eu cofnodi leiaf. Er enghraifft, dim ond 396 o gofnodion sydd wedi bod ar gyfer y llyffant cyffredin yn y deng mlynedd ddiwethaf. Mae arnom angen eich help i gofnodi'r rhywogaethau sy'n cael eu tanwerthfawrogi gennym!	https://www.wwbic.org.uk/wildlife-recording/common-or-garden-sightings/
Gwyllo Adar yr Ardd	Arhoswch mewn cysylltiad â natur, dysgwch am fywyd gwyllt eich gardd a chyfrannwch at ymchwil wyddonol bwysig heb adael eich cartref. Rydym yn rhoi mynediad am ddim i bawb i Wyllo Adar Gardd Ymddiriedolaeth Adareg Prydain yn ystod cyfnod cau COVID-19.	https://www.bto.org/our-science/projects/gbw
Nadroedd mewn Gerddi	Mae llawer o bobl yn falch iawn o ddarganfod neidr yn eu gardd - mae'n brofiad bywyd gwyllt prin. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod yn brofiad brawychus i rai. Cofiwch nad oes rheswm i boeni. Mae'r mwyafrif helaeth o nadroedd sy'n ymddangos mewn gerddi yn gwbl ddiniwed, i bobl ac i anifeiliaid anwes hefyd. Er mwyn helpu i'w hadnabod edrychwch ar yr orielau lluniau ar ein tudalennau gwybodaeth am nadroedd.	https://www.arc-trust.org/snakes-in-gardens
Dreigiau yn eich Gardd	Mae Dreigiau yn eich Gardd yn annog garddwyr i gymryd camau syml i gynorthwyo llyffantod, madfallod dŵr, nadroedd a budrchwilod y DU - y mae llawer ohonynt yn diflannu o gefn gwlad yn ehangach. Dewch i wybod beth y gellwch chi ei wneud yn eich iard gefn chi eich hun	https://www.arc-trust.org/dragons-in-your-garden
Canllaw Adnabod Cacwn	Oeddech chi'n gwybod y gallech chi, drwy adnabod rhywogaethau cacwn, ein helpu i'w cadw? Medrwyd wneud hyn drwy ychwanegu'r cacwn yr ydych wedi eu gweld at yr arolwg cofnodi bywyd gwyllt ar-lein.	https://www.bumblebeeconservation.org/bumblebee-species-guide/



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Gwanwyn 2020



Teitl	Manylion	Cyswllt
Arolwg Gloënnod Byw yr Ardd	Mae'r Arolwg Gloënnod Byw yr Ardd yn eich galluogi i gofnodi a rhoi gwybod am y gloënnod byw sy'n ymweld â'ch gardd dros gyfnod o flwyddyn. Crëwch gyfrif am ddim, cyflwynwch yr hyn yr ydych wedi ei weld a helpwch ni i ddysgu mwy am sut mae gloënnod byw yn dod ymlaen mewn gerddi yn y DU.	https:// gardenbutterflysurvey.org/ /
Mae Pob Blodyn yn Cyfrif	Drwy gymryd rhan yn yr ymgyrch gwyddoniaeth dinasyddion newydd sbon hon , byddwn yn dangos i chi faint o neithdar y mae'r blodau yn eich lawnt yn ei gynhyrchu.	https:// www.plantlife.org.uk/ everyflowercounts/
Gweithgar-eddau i Blant a Theuluoedd	Rydym yn gwybod bod natur yn dda i ni, ond gall fod yn anodd gwybod sut i gysylltu â bywyd gwyllt gartref.	https:// www.wildlifetrusts.org/ kids-and-families



Cylchlythyrau Natur

This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.

Hoffai PNSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

Manylion Cysylltu PNSB

- **Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth**, Ant Rogers, Ffôn – 01437 776 146 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Natur Sir Benfro gwefan: <https://www.sir-benfro.gov.uk/bioamrywiaeth>
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PNSB



Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437776146

Tudalen

